Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd /
Achieving More Together

# Adroddiad Cynnydd Canol Blwyddyn

# 2023/24

## Cyflwyniad

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru (GMC) yw'r gydweithredfa ledled Cymru ar gyfer darparu a datblygu gwasanaethau mabwysiadu.

Drwy ei strwythur cenedlaethol / rhanbarthol / lleol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu Awdurdodau Lleol a'i bartneriaeth ag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol, Iechyd, Addysg ac eraill, mae'r GMC wedi bod yn darparu a gwella gwasanaethau ers 2014.

Eleni rydym yn parhau i weithredu ein cynllun strategol ***'Adoptcymru 2025 a thu hwnt.....'***.




Nodweddion allweddol y cynllun hwn yw gweithredu dulliau arfer gorau mewn

- marchnata a recriwtio mabwysiadwyr yn ogystal â gosod plant,
- cymorth mabwysiadu, cyswllt a gweithio gyda rhieni biolegol,
- gwella meysydd gwasanaeth sy'n ymateb i oblygiadau gydol oes mabwysiadu, yn arbennig gwasanaethau i gefnogi oedolion mabwysiedig i gael gafael ar eu gwybodaeth bersonol, yn ogystal â'u cefnogi nhw a/neu berthnasau biolegol i gysylltu â'i gilydd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Cafwyd llwyddiannau a gwelliannau sylweddol gan GMC a'i wasanaethau ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf; i blant, mabwysiadwyr ac i eraill y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt. Mae hyn wedi digwydd wrth i ni foderneiddio gwasanaethau, er gwaethaf yr amgylchedd sy'n gyson heriol. Yn ystod y flwyddyn hon yn unig, mae cyllid y sector cyhoeddus a phwysau costau byw, ochr yn ochr â'r heriau emosiynol / lles i blant mabwysiedig a'u teuluoedd, a waethygir gan effaith barhaus pandemig Covid, i gyd yn bresennol ac yn effeithio ar y cyd-destun i deuluoedd a'r cyd-destun yr ydym yn darparu gwasanaethau ynddo.

Mae'r defnydd o fabwysiadu yn gostwng yng Nghymru, fel y mae yn Lloegr, sy'n rhannol oherwydd cyfarwyddyd polisi cyfiawn Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar

ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn sicrhau y gall mwy o blant yng Nghymru aros o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau yn hytrach na 'derbyn gofal'.

Fodd bynnag, ochr yn ochr â hyn, mae gwasanaethau'n adrodd bod y plant na allant aros yn ddiogel o fewn eu teuluoedd biolegol neu gymunedau genedigol, oherwydd bod yr holl ddewisiadau amgen wedi'u disbyddu, yn dod i wasanaethau mabwysiadu ag anghenion sy'n fwyfwy cymhleth. Gall oedi a adroddir yn y broses farnwrol hefyd effeithio ar gymhlethdodau lleoli plant gyda theuluoedd mabwysiadol ac weithiau gall arwain at ailystyried a newid cynlluniau ar gyfer mabwysiadu.

Gwyddom y bydd gwasanaethau mabwysiadu effeithiol a gwella gwasanaethau cymorth mabwysiadu cyn ac ar ôl y gorchymyn yn sicrhau y bydd y buddsoddiad cyhoeddus a wneir mewn perthynas â diogelu plant mwyaf agored i niwed Cymru yn parhau i arwain at ganlyniadau gwell iddyn nhw ac i wasanaethau.  Mae gwasanaethau'r GMC yn parhau i weithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol i sicrhau, lle mae cynllun plentyn ar gyfer mabwysiadu, y gallant gael parhad trwy hyn mewn modd mor amserol â phosibl.

Mae hyn yn gwneud ein hymrwymiad i fod

- yn fwy hyblyg, rhagweithiol ac ymatebol
- yn fwy cefnogol pan fydd plant a theuluoedd angen help
- yn well yn adnabod / cefnogi pwysigrwydd parhaus teuluoedd biolegol ym mywydau plant mabwysiedig ac
- yn well yn darparu gwybodaeth, cymorth a gwasanaethau i oedolion, yn ôl yr angen.

……yn bwysicach nag erioed.



Suzanne Griffiths

Cyfarwyddwr

*Byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn*


| | |
|---|---|
| CGC | Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| GMGC | Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru |
| GMDDdC | Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru |
| Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd | Gwasanaeth Mabwysiadu’r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd |
| GMBG | Gwasanaeth Mabwysiadu Bae’r Gorllewin |
| Barnardo’s | Barnardo’s |
| Dewi Sant | Cymdeithas Plant Dewi Sant |
| AUK | Adoption UK |
| ALlau | Awdurdodau Lleol |

## Pethau i'w Dathlu Hyd Yma Eleni

Mae gwasanaeth Connected Adoption UK yn darparu cymorth grŵp a gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc mabwysiedig ledled Cymru. Hyd yma eleni, mae 355 o blant a phobl ifanc wedi cofrestru i fynychu Connected, gyda 50 o sesiynau grŵp eisoes wedi'u cynnal.

Cymerodd Cyngor Ieuenctid Mabwysiadu gwasanaeth Connected ran mewn rhai cyfweliadau gyda newyddiadurwr o BBC Cymru yn sgil eu podlediad, 'Truth Be Told'. Cyhoeddwyd y cyfweliadau ar-lein ym mis Mehefin ac roeddent yn canolbwyntio ar hunaniaeth.

Mynychodd un person ifanc Wobrau Podlediadau Prydain yn Llundain ar 28 Medi gyda Cowshed Media lle cafodd podlediad y GMC, Truth Be Told, y Wobr Arian (llun isod gyda Sam Thompson 'Brenin y Jyngl' 2023!).






Yn gynharach eleni, lansiodd GMC offeryn newydd i fusnesau gefnogi polisïau hwyluso mabwysiadu ar gyfer eu gweithwyr sy'n mynd trwy daith fabwysiadu. Cafodd pecyn cymorth 'Mabwysiadu yn eich busnes' ei lansio'n swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mae eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan fusnesau fel Admiral, Principality, Llywodraeth Cymru a Menter a Busnes.




## 'AdoptCymru2025athuhwnt ….' - ein Cynllun Strategol a'n blaenoriaethau

Mae cynllun strategol 'Adopt Cymru 2025 a thu hwnt ….' yn gynllun strategol tair blynedd yr ydym wedi bod yn gweithio tuag ato ers dechrau 2022/23. Fe'i datblygwyd yn dilyn ymgysylltu helaeth â phlant, pobl ifanc a theuluoedd, gweithwyr proffesiynol

ac arweinwyr gwasanaethau, gan gynnwys trwy'r 'Sgwrs Fawr am Fabwysiadu' flynyddol.

## BLAENORIAETH STRATEGOL A: Y TEULUOEDD GORAU I'N PLANT MABWYSIEDIG

**Nod: Parhau i wella recriwtio, paratoi a hyfforddiant ar gyfer mabwysiadwyr er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei leoli mewn modd amserol gyda mabwysiadwyr a all, gyda chymorth cynnar, roi'r cyfleoedd gorau iddynt gael bywyd teuluol.**

Amcanion:

- Parhau i wella ansawdd marchnata, recriwtio, hyfforddiant a pharatoi mabwysiadwyr.
- Bodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth yn well, a sicrhau eu bod yn cael eu paru â'r teuluoedd iawn.
- 'Normaleiddio'r' cysyniad o fabwysiadu fel bod mabwysiadwyr yn gyfforddus gyda'r syniad ei bod hi'n bosibl iawn y bydd angen cymorth ychwanegol ar blant wedi eu mabwysiadu drwy gydol eu bywydau
- Gweithio'n fwy helaeth a dwys gyda chydweithwyr ym maes addysg a'r gwasanaethau iechyd i sicrhau cymorth mwy effeithiol i deuluoedd.

### *Beth sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod chwe mis cyntaf 2023/04?*

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb COG [1] o'r cyflawniadau hyd yn hyn eleni:

| | |
|---|---|
| **Strategaeth recriwtio/ ymgyrch farchnata** | Mae strategaeth recriwtio genedlaethol GMC ar gyfer eleni ar waith, ynghyd ag ymgyrch farchnata strwythuredig i gynyddu niferoedd cyffredinol yr ymholiadau. Mae hyn yn seiliedig ar ystod o waith 'mewnwelediadau' gyda'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.<br>Mae ail-lansio'r ymgyrch llwyddiannus 'Dewis Teulu' yn canolbwyntio ar grwpiau o frodyr a chwiorydd a phlant ag anghenion cymhleth.<br>Cytunwyd ar nodau recriwtio gwasanaethau ar gyfer 2023-24. |
| **Cofrestr Fabwysiadu Cymru – monitro gweithgareddau lleoli** | Mae Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn parhau i ddarparu ffordd effeithiol o gysylltu darpar fabwysiadwyr â phlant. Mae ymgysylltu da rhwng tîm CFC a'r Rheolwyr Mabwysiadu Rhanbarthol.<br>Mae un Diwrnod Gweithgareddau Mabwysiadu wedi cael ei gynnal hyd yma eleni gyda **28** o blant wedi'u proffilio a **25** yn bresennol ar y diwrnod, roedd llawer o'r plant yn rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd a/neu ag anghenion cymhleth |

[1] COG – Coch (dim cynnydd), Oren (yn amodol ar waith parhaus / wedi'i gynllunio'n fwy), Gwyrdd (Cyflawnwyd / Cwblhawyd elfennau allweddol)


| | |
|---|---|
| | ychwanegol. Cafwyd **5** o gysylltiadau llwyddiannus o'r dydd, y nifer uchaf hyd yn hyn.<br><br>Mae dau ddigwyddiad proffilio pellach wedi'u cynllunio ar gyfer nes ymlaen yn y flwyddyn. |
| **Cynllun Pasbort Adoption UK a 1000 o ddiwrnodau** | Mae cynllun Pasbort Adoption UK yn dal i gael ei hyrwyddo. Mae'r prosiect 'Y 1000 diwrnod cyntaf' yn parhau gydag archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod rhanbarthau ac AMGau yn manteisio arnynt. |
| **Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (SCC)** | Mae pob rhanbarth bellach wedi cofrestru gyda SCC ac mae cymeradwyo mabwysiadwyr yn cynyddu'n raddol. Ar ddiwedd mis Medi 2023, roedd 2 drefniant wedi'u gwneud ac roedd 2 fabwysiadwr wedi'u cymeradwyo fel gofalwyr SCC.<br><br>Mae partner arfer da GMC, AFKA Cymru, wedi cyflwyno 6 gweminar i ddarpar fabwysiadwyr SCC, gyda 18 aelwyd yn bresennol. Yn ogystal, cynhaliwyd 5 gweminar ar gyfer ymarferwyr a 6 sesiwn hyfforddi ar gyfer aelodau'r panel. |
| **Llinellau Amser Gwella Trawma/diwrnodau Deall y Plentyn** | Mae pob rhanbarth yn cynnal Diwrnodau Deall y Plentyn, ac mae'r broses Llinell Amser Gwella Trawma yn cael ei gweithredu. |
| **Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd** | Mae adolygiad o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd wedi digwydd; mae gwasanaeth diwygiedig bellach yn rhoi mwy o gefnogaeth, dros gyfnod hirach, i deuluoedd sydd â phlant wedi'u lleoli drwy'r gwasanaeth.<br><br>Mae amrywiaeth o asedau sy'n targedu ymgysylltu a recriwtio mabwysiadwyr LHDTC+ yn benodol hefyd wedi'u datblygu ynghyd â threfniant newydd gyda 'Home for Good' sydd wedi dechrau. |
| **Dadansoddiad o'r plant sy'n aros hiraf** | Arweiniodd pryder am amserlenni ar gyfer lleoliadau gydag AMGau atom yn dadansoddi gwybodaeth am 35 o blant ledled Cymru a oedd wedi bod yn aros hiraf i gael eu lleoli. Canfu hyn bod y rhesymau am yr oedi fel a ganlyn (mae'r rhif yn nodi nifer y plant y mae hyn yn ymwneud â nhw):<br><br>▪ Cyflwr meddygol neu anghenion cymhleth – 10<br>▪ Rhan o grŵp brodyr a chwiorydd – 8<br>▪ Her gan y teulu biolegol – 8<br>▪ Gofalwyr maeth yn penderfynu mabwysiadu – 5<br>▪ Capasiti staff/llwyth gwaith – 4<br><br>Roedd niferoedd llai o ganlyniad i oedi wrth asesu neu weithredu, cefndir teuluol cymhleth, oedi gyda pharu cychwynnol neu'r trefniadau'n methu, Covid, ceisio lleoli |

| | |
|---|---|
| | gyda mabwysiadwyr brodyr a chwiorydd, angen lleoliad BAME, a bod yn blentyn hŷn.<br><br>Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ail ran y flwyddyn i nodi camau gwella i fynd i'r afael â hyn. |
| **Gwaith ethnigrwydd/BLM** | Mae astudiaeth ymchwil fach a gynhaliwyd gan fyfyriwr Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd wedi tynnu sylw at wahaniaethau yn yr amserlenni i blant a mabwysiadwyr o gefndiroedd lleiafrifol hiliol gael eu lleoli/derbyn lleoliad. Bydd cynllun yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â materion perthnasol yn yr adroddiad yn ail hanner y flwyddyn. |
| **Cwmpasu ynghylch llwyddiant lleoliad** | Mae ymarfer cwmpasu, er mwyn deall a nodi dangosyddion llwyddiant yn well wrth osod plant ag anghenion cymhleth, wedi dechrau. |

## *Perfformiad yn ystod chwe mis cyntaf 2023/24*

### Plant


Mae llai o blant yn y system o hyd o'i gymharu â blynyddoedd cyn y pandemig. Mae atgyfeiriadau plant, penderfyniadau 'dylid eu lleoli' a nifer y gorchmynion lleoli yn gostwng yn gyffredinol er bod y llinellau tueddiad ar gyfer y ddau olaf yn gymharol wastad.  Nid oes perthynas gyson rhwng lefel yr atgyfeiriadau a gwneud penderfyniadau dilynol ond mae lefelau'r 'penderfyniadau dylid eu lleoli' a'r gorchmynion lleol yn cyd-fynd yn agosach.




| | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M1 Referrals | 150 | 130 | 139 | 131 | 150 | 171 | 118 | 127 | 107 | 127 | 90 | 145 | 120 | 102 | 167 | 139 | 117 | 134 |
| M2 Should Be Placed | 84 | 74 | 70 | 74 | 25 | 48 | 73 | 77 | 68 | 52 | 57 | 56 | 56 | 71 | 75 | 73 | 64 | 46 |
| M3 Placement Orders | 88 | 70 | 57 | 60 | 55 | 68 | 68 | 70 | 62 | 71 | 47 | 50 | 45 | 51 | 74 | 79 | 70 | 52 |


Fodd bynnag, mae atgyfeiriadau plant at wasanaethau mabwysiadu wedi cynyddu hyd yma eleni ac ar hyn o bryd maent 11% yn uwch o'i gymharu â'r un amser y

llynedd. Yn yr un modd, mae gorchmynion lleoli ar 122, 21% yn uwch o'i gymharu â 96 yn yr un cyfnod y llynedd.




Os yw'r ddau yn aros ar lefel debyg am weddill eleni, yna mae'r rhagamcan yn dangos y bydd y ddau yn aros ar lefel debyg i'r llynedd.


Mae'r nifer isaf cyffredinol o blant yn parhau i effeithio ar y niferoedd sy'n cael eu paru a'u lleoli, er bod y sefyllfa'n amrywiol ar draws y rhanbarthau. Gosodwyd llai o blant yn ystod Ch2 (42) nag yn Ch1 a llai yn gyffredinol nag ar yr un adeg mewn blynyddoedd blaenorol heblaw 20/21 (pandemig). Cynyddodd nifer y plant a leolwyd yn CGC a BG gyda'r rhanbarthau sy'n weddill yn lleoli llai o blant.





| | Q1 | Q2 | Q1 | Q2 | Q1 | Q2 | Q1 | Q2 | Q1 | Q2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| WB | 19 | 22 | 9 | 23 | 14 | 14 | 6 | 4 | 7 | 12 |
| VVC | 24 | 26 | 6 | 23 | 24 | 19 | 17 | 12 | 12 | 9 |
| SEW | 21 | 15 | 3 | 23 | 18 | 24 | 15 | 16 | 15 | 11 |
| NW | 14 | 8 | 6 | 11 | 10 | 16 | 9 | 17 | 11 | 3 |
| MWW | 6 | 9 | 9 | 7 | 5 | 11 | 8 | 9 | 7 | 11 |
| Total | 84 | 80 | 33 | 87 | 71 | 84 | 55 | 58 | 52 | 46 |

Yr amser cyfartalog a gymerodd i blentyn gael ei leoli ar ôl i'r Gorchymyn Lleoli gael ei roi oedd 8.4 mis ar ddiwedd Ch2; mae hyn yn welliant ar y ffigwr blynyddol ar gyfer

2022/23 (10.1 mis) ac mae'n dod ag amserlenni ar gyfer plant yn ôl yn is na'r lefelau cyn y pandemig.




Roedd 35% o'r lleoliadau a wnaed o fewn y meincnod o 6 mis a 78% o fewn 9 mis. Rydym yn ymwybodol bod rhai o'r arferion newydd, sy'n cefnogi trosglwyddo plant i'w cartrefi newydd yn well, yn cymryd ychydig yn hirach er bod canlyniadau gwell.





Ganol y flwyddyn, roedd 237 o'r plant yr oedd gwasanaethau'n gweithio gyda nhw yn aros i gael eu lleoli h.y. plant a oedd yn destun gorchymyn lleoli neu wedi eu hildio ond heb gael eu paru na'u lleoli eto. O'r rhain:

- Roedd gan 19% (n45) gysylltiad cryf eisoes wedi'i nodi a oedd yn aros i gael ei ddatblygu,
- Roedd 7% (n17) wedi cael eu gohirio oherwydd heriau cyfreithiol neu asesiadau ychwanegol oedd yn cael eu cynnal,


- Roedd gan 4% (n9) newid arfaethedig i'w cynllun ar gyfer mabwysiadu yn aros am ystyriaeth.

Mae hyn yn ein gadael â ffigur o 166 o blant yn 'weithredol yn dod o hyd i deulu' yng nghanol y flwyddyn. Mae hyn yn uwch nag yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.




## Mabwysiadwyr


Mae nifer yr ymholiadau cychwynnol i'w mabwysiadu wedi gostwng ers 2021/22 a'r lefelau uwch a dderbyniwyd yn ystod pandemig Covid-19; mae wedi bod yn gymharol ddisymud, rhwng 300-400 o ymholiadau fesul chwarter dros y deunaw mis. Hyd yn hyn eleni, mae 120 o ymholiadau ar gyfartaledd bob mis. O'r 722 o ymholiadau, cafodd 18% eu cyfeirio i ddechrau drwy'r wefan genedlaethol.




| | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Q1 | Q2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| StD | 92 | 131 | 103 | 154 | 149 | 91 | 121 | 118 | 100 | 75 | 72 | 124 | 125 | 101 | 41 | 91 | 74 | 100 |
| B's | 112 | 87 | 83 | 86 | 120 | 159 | 116 | 118 | 122 | 161 | 175 | 136 | 83 | 86 | 126 | 97 | 111 | 70 |
| WB | 33 | 38 | 34 | 61 | 65 | 69 | 62 | 63 | 58 | 61 | 47 | 52 | 39 | 34 | 41 | 53 | 46 | 85 |
| VVC | 76 | 84 | 84 | 92 | 87 | 91 | 79 | 119 | 92 | 73 | 72 | 132 | 65 | 34 | 43 | 69 | 49 | 54 |
| SEW | 30 | 61 | 33 | 57 | 27 | 60 | 54 | 78 | 52 | 43 | 46 | 42 | 30 | 27 | 11 | 37 | 32 | 25 |
| NW | 22 | 35 | 45 | 42 | 43 | 43 | 38 | 71 | 44 | 37 | 71 | 46 | 31 | 20 | 21 | 30 | 23 | 29 |
| MWW | 20 | 28 | 18 | 23 | 34 | 33 | 25 | 30 | 14 | 16 | 22 | 36 | 19 | 18 | 16 | 15 | 12 | 12 |
| Total | 385 | 464 | 400 | 515 | 525 | 546 | 495 | 597 | 482 | 466 | 505 | 568 | 392 | 320 | 299 | 392 | 347 | 375 |

Gan dybio bod nifer yr ymholiadau cychwynnol a wnaed ar gyfer gweddill y flwyddyn yn adlewyrchu Ch1 a Ch2, gallai fod cynnydd blwyddyn lawn rhagamcanol bach o 3% o'i gymharu â 2022/23.


Bu gostyngiad mewn asesiadau mabwysiadwyr yn dechrau, gyda chyfanswm o 115 wedi dechrau yn hanner cyntaf y flwyddyn. Mae pob rhanbarth ac asiantaeth yn nodi gostyngiad yn yr asesiadau a ddechreuwyd. Fel y nodir isod, mae patrwm o niferoedd is yn Ch2 er bod y ffigwr ar gyfer Ch2 eleni yn is na'r arfer. Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i ddadansoddi'r data sy'n ymwneud ag ymholiadau mabwysiadwyr, asesiadau, a chymeradwyaethau fel y gellir nodi unrhyw gamau gwella.




| | Q1 | Q2 | Q1 | Q2 | Q1 | Q2 | Q1 | Q2 | Q1 | Q2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| StD | 6 | 7 | 6 | 15 | 6 | 15 | 10 | 5 | 3 | 12 |
| B's | 3 | 4 | 7 | 5 | 7 | 5 | 13 | 1 | - | 4 |
| WB | 17 | 23 | 24 | 16 | 24 | 16 | 16 | 14 | 9 | 7 |
| VVC | 28 | 11 | 33 | 21 | 33 | 21 | 23 | 12 | 17 | 9 |
| SEW | 7 | 12 | 10 | 3 | 10 | 3 | 4 | 12 | 13 | 2 |
| NW | 12 | 7 | 11 | 5 | 11 | 5 | 15 | 10 | 19 | 7 |
| MWW | 5 | 2 | 10 | 6 | 10 | 6 | 9 | 13 | 8 | 5 |
| Total | 78 | 66 | 101 | 71 | 101 | 71 | 90 | 67 | 69 | 46 |


Mae cymeradwyaethau mabwysiadwyr wedi parhau i ostwng yn hanner cyntaf eleni gyda chyfanswm o 67 o gymeradwyaethau. Yr amserlen gyfartalog ar gyfer asesu i gymeradwyo (Cyfnod 2) yw 4.5 mis ar hyn o bryd; mae hyn yn berfformiad da sy'n adlewyrchu'r pwynt o'r adeg y mae darpar fabwysiadwr yn cytuno'n ffurfiol i fwrw ymlaen unwaith y bydd yr holl wiriadau fetio cychwynnol yn foddhaol.

Cytunwyd ar nodau recriwtio yn seiliedig ar yr angen a ragwelir.  Ar y cyfan, mae recriwtio hyd yma wedi cyflawni 39% o'r angen rhagamcanol.  Fel y nodir isod mae cynnydd rhanbarthau/gwasanaethau unigol yn erbyn eu nodau yn amrywio.




| | MWW | NW | SEW | VVC | WB | B's | StD | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2023/24 | 10 | 6 | 15 | 20 | 8 | 1 | 7 | 67 |
| Targets 2023/24 | 16 | 18 | 33 | 45 | 28 | 15 | 16 | 171 |
| Target Achieved | 63% | 33% | 45% | 44% | 29% | 7% | 44% | 39% |
| Projection | 20 | 12 | 30 | 40 | 16 | 2 | 14 | 134 |

Nifer y mabwysiadwyr a oedd yn aros ganol y flwyddyn oedd 149, sy'n ostyngiad o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.




| | Q4 17/18 | Q4 18/19 | Q4 19/20 | Q4 20/21 | Q4 21/22 | Q4 22/23 | Q2 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| StD | | 4 | 10 | 14 | 19 | 17 | 19 |
| B's | | 7 | 10 | 8 | 18 | 16 | 15 |
| WB | 38 | 5 | 20 | 22 | 46 | 32 | 19 |
| VVC | 30 | 4 | 22 | 24 | 43 | 29 | 36 |
| SEW | 11 | 16 | 19 | 18 | 31 | 33 | 22 |
| NW | 4 | 1 | 0 | 1 | 14 | 15 | 8 |
| MWW | 4 | 8 | 15 | 18 | 26 | 28 | 30 |
| Total | 87 | 45 | 96 | 105 | 197 | 170 | 149 |

Mae'r **Rhanbarthau a AMGau** wedi adrodd am lwyddiannau cadarnhaol i blant yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon.

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru mae digwyddiadau Diwrnod Deall y Plentyn yn cael eu cynnal ar gyfer pob plentyn sydd wedi'i leoli ac mae Llinell Amser Gwella Trawma bellach yn cael ei darparu. Mae CGC hefyd yn sicrhau bod yr holl blant sy'n aros yn cael eu proffilio drwy ddigwyddiadau Cofrestr Fabwysiadu Cymru.

Mae Gogledd Cymru yn cael canlyniadau cadarnhaol o gyflwyniadau a phontio ar gyfer plant a darpar fabwysiadwyr oherwydd y gefnogaeth a gynigir gan weithwyr cymorth therapiwtig pontio. Mae lleoliadau ar gyfer y plant hynny sy'n aros yr hiraf, plant ag anghenion iechyd cymhleth a grwpiau o frodyr a chwiorydd bellach yn cael eu chwilio yn weithredol o fewn a thu allan i'r rhanbarth.

Yn Ne-ddwyrain Cymru mae cyfarfodydd 'cemeg' a 'chysylltiadau' wedi bod o fudd i rai achosion. Mae gostyngiad hefyd wedi bod yn yr amser cyfartalog y mae plant yn aros.

Bu cynnydd mewn cyfraddau atgyfeirio a lefel uchel o weithgaredd paru yn y y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd. Mae llawer o blant yn cael eu paru'n gyflym yn dilyn gorchmynion lleoli ac o fewn y rhanbarth.

Mae Bae'r Gorllewin wedi adrodd am ddewis da o opsiynau paru ar gyfer plant oherwydd nifer y mabwysiadwyr sy'n aros yn y rhanbarth.

Mae Barnardo's yn parhau i ddatblygu eu pecynnau cymorth ôl-leoliad a hyfforddiant newydd i fabwysiadwyr. Mae mabwysiadwyr sydd wedi bod yn aros ers peth amser bellach yn cael eu paru â phlant.

Mae Dewi Sant yn adrodd am weithgarwch cadarnhaol mewn perthynas â phlant sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu ac mae nifer y plant sydd yn weledol ar Gofrestr Mabwysiadu Cymru yn cynyddu.

Mewn perthynas â mabwysiadwyr:

Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn adrodd am ragweithio mewn perthynas ag ymholiadau.

Yng Ngogledd Cymru mae sesiynau Holi ac Ateb 'galw heibio' rhithwir yn cael eu cynnal ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn dod yn fabwysiadwyr. Cafwyd adborth cadarnhaol hefyd gan fabwysiadwyr a'u plant a fynychodd Ddiwrnod Hwyl Blynyddol ym mis Medi.

Mae De-ddwyrain Cymru wedi rhoi gwybod am eu cymeradwyaeth SCC cyntaf a chafwyd presenoldeb da mewn hyfforddiant paratoi.

Mae hyfforddiant cyn cymeradwyaeth yn y Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd bellach yn cynnwys 'diwrnod wyneb yn wyneb' sydd wedi cael derbyniad da gan gyfranogwyr. Mae'r rhanbarth wedi gweld cynnydd bach ond parhaus yn nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd.

Ym Mae'r Gorllewin mae ymholiadau a chymeradwyaethau yn parhau i fod yn araf, ond mae'r ceisiadau a dderbynnir yn fwy tebygol o symud ymlaen, yn fwy cadarn ac wedi ystyried pob agwedd ar y canllawiau arfer da.

Mae Barnardo's yn parhau i dderbyn ymholiadau newydd ac mae Swyddog Marchnata newydd wedi'i recriwtio i wella ymwybyddiaeth o wasanaethau a strategaeth i weithredu mwy o ymgysylltu â'r gymuned.

Mae Dewi Sant yn adrodd bod eu hadolygiad Strategaeth Recriwtio wedi arwain at fwy o ddarpar fabwysiadwyr sydd â diddordeb mewn mabwysiadu brodyr a chwiorydd.

Ar draws gweithgareddau sy'n ymwneud â phlant a mabwysiadwyr, mae sawl her wedi cael eu adrodd hefyd

- ☒ Gostyngiad mewn ymholiadau a chyflenwad annigonol o fabwysiadwyr i ddiwallu anghenion rhai plant, yn enwedig y rhai ag anghenion neu sefyllfaoedd teuluol cymhleth.
- ☒ Oedi yn y llys, fel arfer oherwydd ceisiadau rhieni.
- ☒ Pwysau ar gapasiti oherwydd pwysau mewn timau gwaith cymdeithasol plant ac mewn rhanbarthau sy'n effeithio ar gymorth recriwtio a mabwysiadu.
- ☒ Oedi o ran nifer fach o blant yn symud ymlaen i'w cartrefi newydd.
- ☒ Nifer fach o drefniadau mabwysiadu yn chwalu.

### *Cynlluniau ar gyfer y chwe mis nesaf*

Mae gwaith pellach a gynlluniwyd ar gyfer gweddill y flwyddyn mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Gwefan newydd GMC – sy'n cael ei chomisiynu ar hyn o bryd, gyda datblygiad yn debygol o ddechrau yn 2024 ac i mewn i 2024-25.
- Mae asesiad mabwysiadwr – fframwaith cymhwysedd i gyd-fynd ag asesiadau mabwysiadwyr yn cael ei ddatblygu, gyda'r bwriad o gyflwyno hyn yn 2024-25.

## BLAENORIAETH STRATEGOL B: CYMORTH MABWYSIADU GWYCH - PRYD A BLE MAE EI ANGEN

**Nod: Ynghyd â darparu gwasanaethau cyffredinol a chymorth i deuluoedd, ein nod yw parhau i ddatblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ledled Cymru, gan newid canfyddiad o anghenion cymorth plant a phobl ifanc gyda ffocws hirdymor ar effaith profiadau plentyndod cynnar a thrawma cynnar.**

Amcanion:

- Parhau i adeiladu ystod ddibynadwy o wasanaethau cymorth ledled Cymru sydd â digon o gapasiti i fodloni anghenion mabwysiadwyr a phobl mabwysiedig yn y dyfodol.
- Cefnogi anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu
- Rhoi rhagamcan o olwg fwy amrywiol ar yr angen hirdymor am gymorth mabwysiadu
- Sicrhau nad yw gwasanaethau cymorth mabwysiadu'r GMC yn disodli gwasanaethau cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cyffredinol eraill.

### *Beth sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod chwe mis cyntaf 2023/04?*

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb COG o'r cyflawniadau hyd yn hyn eleni:

| | |
|---|---|
| **Mesurau Cymorth Mabwysiadu a thempledi newydd** | Mae mesurau a thempledi Cymorth Mabwysiadu newydd bellach wedi'u hymgorffori ym Mherfformiad GMC a bydd cynnydd ar y rhain yn cael eu hadrodd ddiwedd y flwyddyn. |
| **Gwaith Taith Bywyd (GTB)** | Mae gwaith Taith Bywyd yn parhau i fynd rhagddo'n dda, mae templedi wedi'u diweddaru ac mae mesurau newydd yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer. Mae pob rhanbarth yn rhannu Canllaw Arfer Da GTB trwy ddigwyddiadau a sesiynau hyfforddi. |
| **Baromedr Mabwysiadu** | Cyflwynwyd canlyniadau'r pumed arolwg Baromedr i Fwrdd Llywodraethu GMC ym mis Mehefin 2023. Yn ogystal â gwneud argymhellion ynghylch amserlenni ar gyfer cymeradwyo mabwysiadwyr, argymhellodd adroddiad eleni gymorth hygyrch, am ddim, o ansawdd uchel i bobl |


| | |
|---|---|
| | mabwysiedig o bob oed, pryd bynnag y bydd ei angen arnynt. |
| **Modiwlau hyfforddiant mabwysiadu modern** | Er mwyn parhau i hyrwyddo gweithlu sy’n 'ymwybodol o fabwysiadu', mae tri modiwl mabwysiadu a sefydlogrwydd wedi'u datblygu a'u cyflwyno ar draws pob rhanbarth ac AMGau. |
| **Cyfres gynadledda CASCADE** | Cydweithiodd GMC â CASCADE ym mis Mai a mis Mehefin i'w cefnogi i ddatblygu a darparu'r Gyfres lwyddiannus Cynadleddau Mabwysiadu. |
| **Cyllid grant LLWYBRAU** | Mae rhaglen LLWYBRAU Adoption UK yn parhau i ddarparu gwasanaeth cymorth da i fabwysiadwyr i'w cynorthwyo gyda heriau rhianta. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyllid ychwanegol i barhau â'r rhaglen lawn am y ddwy flynedd nesaf.<br><br>Mae **206** o deuluoedd wedi derbyn gwasanaeth. Mae **20** o bartneriaid cymorth cymheiriaid yn eu lle ac mae **49** o deuluoedd newydd wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaeth. Mae pob teulu yn adrodd canlyniadau cadarnhaol. Cafodd y gwasanaeth ei gydnabod fel Ymgeisydd Rhestr Derfynol gyda Chanmoliaeth Uchel yn y Gwobrau Gofal Cymdeithasol ym mis Ebrill. |
| **Gwasanaeth Connected** | Ar hyn o bryd mae **355** o blant a phobl ifanc sydd wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth gyda thua 35% o'r rhain yn mynychu sesiynau wyneb yn wyneb eleni. Mae'r gweddill, trwy ddewis personol, yn gysylltiedig trwy gyfathrebu rheolaidd (llythyrau/cylchlythyrau) ac ati. Yn y ddau chwarter cyntaf cynhaliwyd 50 sesiwn grŵp gyda 96%[2] o rieni yn datgan bod eu plentyn wedi elwa o fynychu.<br><br>Hyd yn hyn mae'r Cyngor Ieuenctid Mabwysiadu wedi cymryd rhan mewn grwpiau ffocws gyda Cowshed Media mewn perthynas ag ymgyrch recriwtio mabwysiadwyr GMC a mynychodd un person ifanc y Gwobrau Podlediadau Prydeinig yn Llundain ar 5 Hydref gyda Cowshed Media lle derbyniodd y gyfres podlediad 'Truth be Told' y Wobr Arian. |
| **Cwmpasu llwybrau atgyfeirio** | Cynhelir trafodaethau parhaus gyda phartneriaid rhanbarthol i archwilio cysylltiadau sy'n bodoli ar hyn o bryd gyda gwasanaethau iechyd ac addysg gyda'r bwriad o gryfhau/dyblygu'r rhain wrth i ni symud ymlaen. |
| **Cyfarfodydd rheolaidd gwirfoddol** | Mae 'cyfarfodydd rheolaidd'[3] yn cael eu gweithredu ar draws pob rhanbarth ac AMGau i roi cyfle i ailgysylltu â'r |

[2] 96% o ffurflenni gwerthuso wedi'u cwblhau
[3] System ar gyfer ymgysylltu gwirfoddol o bryd i'w gilydd â theuluoedd nad ydynt yn derbyn cymorth parhaus ar ôl i'r Gorchymyn Mabwysiadu gael ei roi.


| | |
|---|---|
| | gwasanaeth a derbyn / adolygu cyngor a chefnogaeth i deuluoedd mabwysiadol. |

## *Perfformiad yn ystod chwe mis cyntaf 2023/24*

Mae nifer o fesurau newydd wedi'u cyflwyno i wella dealltwriaeth a monitro cymorth mabwysiadu. Yng nghanol y flwyddyn roedd dros 1,400 o gynlluniau cymorth mabwysiadu ffurfiol gweithredol ar waith (yn dilyn asesiad statudol) ynghyd â mwy na 450 o deuluoedd sy'n derbyn y gwasanaethau Llwybrau neu Connected y gellir eu cyrchu'n uniongyrchol. Mae hyn yn nifer sylweddol o blant sy'n cael eu cefnogi ac nid yw'n cynnwys yr holl drefniadau cyswllt, na'r cymorth a ddarperir gan yr AMGau i'w teuluoedd mabwysiadol. Roedd hefyd 86 o blant sy'n aros am asesiad cymorth mabwysiadu ffurfiol.





Mae perfformiad mewn perthynas â gwaith taith bywyd yn parhau'n dda er ei fod yn gweld rhywfaint o effaith o'r pwysau mewn gwasanaethau prif ffrwd yn Ch2 lle roedd perfformiad yn is yn gyffredinol.




Roedd gan 82% o'r holl blant sydd wedi’u lleoli hyd yma eleni y deunyddiau Taith Bywyd y cytunwyd arnynt ar y cam paru. Mae hyn yn gynnydd, o 77% ar ddiwedd blwyddyn 2022/23. Roedd dau ranbarth y FCCh a BG wedi cynnal 100%.

Ar y cyfan, yn hanner cyntaf eleni, roedd gan 85% o'r holl blant a gafodd ail adolygiad mabwysiadu y deunyddiau Taith Bywyd y cytunwyd arnynt yn ôl y gofyn. Mae hyn yn

gynnydd, o 61% ar ddiwedd blwyddyn 2022/23.  Fe wnaeth y FCCh gynnal 100% gyda CC a BG dros 80%.




Mae'r **Rhanbarthau ac AMGau** yn adrodd am gyflawniadau cadarnhaol mewn perthynas â chymorth mabwysiadu a gwaith Taith Bywyd yn hanner cyntaf eleni.

Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn adrodd bod 'cyfarfodydd rheolaidd gwirfoddol' yn profi'n gadarnhaol mewn perthynas â chymorth mabwysiadu a gwaith Hanes Bywyd.

Yng Ngogledd Cymru mae hyfforddiant ac offer newydd amrywiol ar gael i gefnogi cydweithwyr, gofalwyr maeth a mabwysiadwyr i gwblhau a datblygu gwaith ar Hanes Bywyd.

Mae De-ddwyrain Cymru yn parhau i gyflwyno sesiynau hyfforddi a galw heibio ar gyfer cymorth mabwysiadu ac mae ansawdd gwaith Hanes Bywyd yn gwella o ganlyniad i'r ffaith fod yr offeryn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.

Mae'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn adrodd am ddatblygiad parhaus deunyddiau taith bywyd o ansawdd gan gynnwys dogfennau cyfarwyddyd. Mae enghreifftiau rhagorol o lyfrau taith bywyd ar gyfer cyfnodau gwahanol yn cael eu cynhyrchu gan Weithwyr Taith Bywyd. Mae amrywiaeth o gymorth a chyngor arall hefyd wedi cael eu darparu gan y Cynghorydd Rhiant Biolegol (teuluoedd biolegol) a'r Gweithiwr Pontio (plant sydd wedi'u lleoli).

Ym Mae'r Gorllewin mae'r perfformiad wrth gwblhau gwaith Taith Bywyd yn yr ail adolygiad mabwysiadu yn parhau i ddatblygu'n gadarnhaol ac mae rhestrau gwirio Taith Bywyd bellach yn cael eu cwblhau fel mater o drefn. Trwy eu 'hyb rhithwir' mae teuluoedd wedi gallu cael gafael ar gyngor a chefnogaeth ynghylch ymddygiad eu plentyn gan gynnwys problemau synhwyraidd, ymddygiad heriol, ac anawsterau bwyta a chysgu. Mae dau weithdy Teulu a Ffrindiau hefyd wedi cael eu mynychu'n dda gan ystod eang o bobl allweddol yn rhwydweithiau'r mabwysiadwyr.

Mae rhai heriau hefyd yn cael eu hadrodd

- Lefelau a chymhlethdod uwch yn y galw mewn gwasanaethau cymorth
- Rhestrau aros ar gyfer asesiadau
- Y gallu i ateb y galw
- Diffyg adnoddau cymorth eraill

- ☒ Cynnal perfformiad da mewn gwaith taith bywyd o ystyried y pwysau ar y gweithlu a gofynion mesurau ansawdd newydd

### *Cynlluniau ar gyfer y chwe mis nesaf*

Mae gwaith pellach a gynlluniwyd ar gyfer gweddill y flwyddyn mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Cyflwyno 3 modiwl hyfforddi ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol
- Cwblhau e-fodiwlau ar gyfer y gweithlu iechyd ac addysg

## BLAENORIAETH STRATEGOL C: CYSWLLT IACHACH TRWY WASANAETHAU TEULU BIOLEGOL GWELL

**Nod: Datblygu dull realistig o gysylltu ledled Cymru, fydd yn sicrhau bod pob plentyn mabwysiedig yn gallu cael cyswllt â'u teuluoedd biolegol ar ôl mabwysiadu sy'n addasu i ddiwallu eu hanghenion trwy gydol eu plentyndod.**

Fel rhan o wasanaeth mabwysiadu modern yng Nghymru, bydd y GMC yn canolbwyntio ar wella cyswllt plant mabwysiedig â'u teuluoedd biolegol (rhieni biolegol, brodyr a chwiorydd a pherthnasau eraill).

- Sicrhau bod pob plentyn mabwysiedig yn gallu cael mynediad i gyswllt ôl-fabwysiadu gyda'u teulu biolegol
- Datblygu cynnig gweithredol cryf o gyswllt uniongyrchol â theuluoedd biolegol, yn enwedig brodyr a chwiorydd
- Datblygu dull realistig o ran cyswllt sy'n cydnabod y gallu sydd gan blant nawr i gael gafael ar wybodaeth a chysylltu â phobl trwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Datblygu gwasanaeth cymorth i deuluoedd biolegol ag adnoddau da ledled Cymru.

### *Beth sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod chwe mis cyntaf 2023/04?*


Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb COG o'r cyflawniadau hyd yn hyn eleni:

| | |
|---|---|
| **Gweithredu canfyddiadau'r 'Archwiliad Cyswllt'** | Datblygwyd adnoddau i gefnogi gwasanaethau rhanbarthol yn eu gwaith gyda staff ALl i barhau i ddatblygu ymarfer yn unol â'r Canllawiau Arfer Da. Mae hyn yn cynnwys dogfen asesu cyswllt Cymru gyfan sy'n cael ei gweithredu ar draws rhanbarthau a deunyddiau hyfforddi.<br><br>Mae hyfforddiant pellach wedi'i ddatblygu ar gyfer ymarferwyr gofal plant yn seiliedig ar y canllawiau 'Gyda'i Gilydd neu ar Wahân' sy'n ymwneud â brodyr a chwiorydd a'r goblygiadau o ran cyswllt pan fyddant yn cael eu gwahanu. Bydd yr hyfforddiant hwn ar gael yn ystod chwarter 3 a 4. |

| | |
|---|---|
| **Mesurau perfformiad newydd** | Bydd data ar gyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol bellach yn cael ei gasglu o ganlyniad i fesurau perfformiad newydd o ran cyswllt yn ogystal â rhai mesurau ansawdd ar gyfer Gwaith Taith Bywyd. |

### *Perfformiad yn ystod chwe mis cyntaf 2023/24*

Mae mesurau cymorth mabwysiadu newydd ar gyfer cyswllt bellach yn cael eu casglu hefyd. O'r 98 o blant a gafodd eu mabwysiadu yn hanner cyntaf y flwyddyn, roedd gan bob un ond un drefniant cyswllt ar waith fel isod.  Nid oedd gan unrhyw blant drefniant ar gyfer cyswllt uniongyrchol yn unig.




### *Cynlluniau ar gyfer y chwe mis nesaf*

Mae gwaith pellach a gynlluniwyd ar gyfer gweddill y flwyddyn mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Ystyriaeth bellach o gyswllt digidol
- Modiwlau hyfforddiant mabwysiadu modern pellach ar gyfer gweithwyr proffesiynol ledled Cymru
- Ymgysylltu pellach â phartneriaid fel Reflect

## BLAENORIAETH STRATEGOL D:  COFNODION MABWYSIADU GWELL A MYNEDIAD GWELL AT WYBODAETH AR UNRHYW OEDRAN

**Nod:  Datblygu gwasanaeth mynediad at gofnodion a deunyddiau sy'n cydnabod pwysigrwydd cadw a rhannu gwybodaeth o ansawdd ac yn sicrhau**

**bod plant ac oedolion yn cael cymorth wrth gael mynediad i'w cofnodion a bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar eu cyfer mewn modd amserol.**

Amcanion:

- Adeiladu 'gwasanaeth mynediad at gofnodion geni' ledled Cymru
- Newid barn y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ar bwysigrwydd cofnodion geni.
- Codi statws, pwysigrwydd ac ansawdd cofnodion plant a'u mynediad at gofnodion
- Parhau i gefnogi rhieni mabwysiadol i rannu taith bywyd plentyn gyda nhw drwy gydol eu plentyndod mewn ffordd briodol yn unol â Fframwaith Taith Bywyd GMC.

## *Beth sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod chwe mis cyntaf 2023/04?*

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb COG o'r cyflawniadau hyd yn hyn eleni:

| | |
|---|---|
| **Mynediad at Gofnodion Geni** | Mae is-grŵp newydd Cofnodion Geni a'r Gwasanaeth Cyfryngol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys staff / rheolwyr ledled Cymru. Hyd yma mae wedi bod yn ystyried materion mewn perthynas â chasglu, storio a mynediad at gofnodion geni gyda'r bwriad o gymhwyso cysondeb ar draws pob rhanbarth. Bydd hefyd yn parhau i gynorthwyo gyda datblygu'r 'Peilot Mynediad at Gofnodion' dan arweiniad Dewi Sant ac AUK. |
| **Prosiect Gwella Gwasanaethau Mabwysiadu i Oedolion (IASA) yn Lloegr** | Mae GMC wedi cysylltu â phrosiect IASA, ac ymhlith pethau eraill, mae'n gweithio ar ddiweddaru'r canllawiau sy'n ymwneud â mynediad at gofnodion ar hyn o bryd. |
| **Hyfforddiant Rheoliadau Cyn ac ar Ôl Dechrau** | Mae dau weithdy hyfforddiant cyn dechrau wedi cael eu cynnal hyd yma eleni yn ogystal ag un gweithdy ar ôl dechrau. Cafwyd presenoldeb da yn y rhain ac maent wedi cael derbyniad da gan staff. |
| **Cynllun peilot AUK/Dewi Sant** | Mae gwasanaeth peilot bach wedi'i ddatblygu gan Dewi Sant ac Adoption UK i ddarparu gwasanaeth i oedolion mabwysiedig y mae arferion mabwysiadu hanesyddol yn effeithio arnynt. Bydd hyn yn dechrau gwasanaethau ar gyfer nifer fach o rieni cyntaf (biolegol) a phobl mabwysiedig yn ail hanner y flwyddyn.<br><br>Mae rhywfaint o arian grant ar gael ar gyfer eleni a'r flwyddyn nesaf; cyflwynwyd cynnig i Lywodraeth Cymru i'w gynyddu ond oherwydd y pwysau ariannol presennol, ni ellir darparu cyllid ar hyn o bryd. |

## *Cynlluniau ar gyfer y chwe mis nesaf*

Mae gwaith pellach a gynlluniwyd ar gyfer gweddill y flwyddyn mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Cwmpasu materion sy'n ymwneud â mynediad at gofnodion mabwysiadu
- Canllawiau wedi'u diweddaru – IASA
- Datblygu/diweddaru adnoddau presennol gan gynnwys ffurflenni safonol ar gyfer mynediad at wybodaeth.

## BLAENORIAETH STRATEGOL E - CYNNAL Y SEILWAITH SYDD EI ANGEN I DDARPARU'R GMC A CHYNNAL LLYWODRAETHU CADARN AR DRAWS Y GMC A MAETHU CYMRU

**Nod: Parhau i gyflwyno'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru yn llwyddiannus.**

## *Beth sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod chwe mis cyntaf 2023/04?*

Mae rôl GMC, a'r ystod o swyddogaethau a gyflwynir yn genedlaethol mewn perthynas â mabwysiadu, wedi parhau i ddatblygu. Mae Maethu Cymru bellach wedi'i ymgorffori'n llawn yn y strwythur cyffredinol ar y cyd sydd wedi gofyn am fuddsoddiad pellach mewn seilwaith a goruchwyliaeth, y mae ei gostau yn cael eu talu ar hyn o bryd drwy gyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid grant ychwanegol hefyd wedi'i sicrhau i weithredu cynllun strategol Mabwysiadu Cymru 2025.

Mae cyflawniadau allweddol yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn hon wedi cynnwys y canlynol:

- Mae strwythur tîm canolog wedi'i ymgorffori ar waith gyda rhai staff yn canolbwyntio'n benodol ar swyddogaethau mabwysiadu neu faethu ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr a rhywfaint o gapasiti cymorth busnes yn cefnogi'r ddau.
- Mae pob awdurdod lleol ledled Cymru bellach wedi cofrestru gyda chytundeb Cyd-bwyllgor newydd GMC a Maethu Cymru. Mae gwaith datblygu yn mynd rhagddo, gyda'r bwriad o gynnal cyfarfod cychwynnol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.
- Mae'r trefniant cynnal gyda Chyngor Caerdydd bron â chael ei gwblhau ac mae'n cynnwys amserlen ddiwygiedig o gostau.
- Comisiynwyd adolygiad ariannol o GMC a Maethu Cymru gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (gweler isod).

## *Adolygiad Ariannol*

Yn gynharach eleni, gofynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) am adolygiad o'r model ariannu ar gyfer yr adnoddau cenedlaethol sy'n cefnogi Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru. Nod yr adolygiad oedd dod i ddeall model gweithredu ac ariannu'r gwasanaeth a mwy o dryloywder i

arweinwyr gwleidyddol mewn llywodraeth leol. Bydd y canlyniad ac adroddiad cryno yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Llywodraethu GMC yn ail ran y flwyddyn a byddant yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol diwedd y flwyddyn.

## *Cyllid GMC ar bwynt Canol Blwyddyn*

Mae'r crynodeb ariannol yn y tabl isod yn rhoi dadansoddiad o wariant mewn perthynas â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ar gyfer elfennau canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyllid 'craidd' a dderbyniwyd drwy CLlLC sy'n ddyraniad o'r Grant cynnal refeniw.

| LLIF INCWM | SWM |
|---|---|
| Refeniw Tîm Canolog CLlLC (dyraniad GCR) | £538,200 |
| Cyfraniad MC i swyddi a rennir a chostau cynnal (grant LlC) | £120,983 |
| Tâl Rheoli CFC (grant LlC) | £28,560 |
| Cydgysylltu grant LlC a Gwaith Taith Bywyd | £9,909 |
| **Cyfanswm Incwm** | **£697,652** |
| | |
| Cronfa wrth gefn GMC wedi ei ddwyn ymlaen | £253,749 |
| **Cyfanswm y Gwariant Rhagamcanol (diwedd y flwyddyn 2023/24)** | **£692,368** |
| | |
| **Balans (Cronfa wrth gefn ar gyfer y Flwyddyn Gyfredol)** | **£254,033** |

Mae'r tablau isod yn amlinellu'r grantiau gwahanol y mae GMC yn eu rheoli, mae llawer yn cael ei ddyrannu i wasanaethau mabwysiadu llywodraeth leol a'r trydydd sector ar gyfer darparu gwasanaethau, mae rhai ar gyfer prosiectau cenedlaethol.

| BUDDSODDIAD CYMORTH MABWYSIADU £2,300,000<br>(ar hyn o bryd wedi'i sicrhau hyd at 31.3.25) | 2023/24 |
|---|---|
| GMGC | £378,656 |
| GMDDdC | £395,957 |
| Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd | £537,241 |
| GMBG | £328,687 |
| CGC | £259,550 |
| Dewi Sant (Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd | £100,000 |
| AFKA (Datblygu Polisi ac Ymarfer) | £85,000 |
| AUK (gwasanaethau Llwybrau a Connected) | £205,000 |
| Tîm Canolog | £9,909 |

| | |
|---|---|
| | **£2,300,000** |

| **GRANT MABWYSIADU CYMRU A THU HWNT £638,639 (r gael ar hyn o bryd hyd at 31.3.25)** | **2023/24** |
|---|---|
| Rhaglen Llwybrau Adoption UK Cymru (yn cael arian blaenorol y Loteri Fawr) | £246,935 |
| Ymgyrch hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus | £174,000 |
| Datblygu Capasiti yn y Rhanbarthau ac AMGau<br>1. AUK (Cynllun Peilot Mynediad at Gofnodion) = £37,677<br>2. Dewi Sant (Cynllun Peilot Mynediad at Gofnodion) = £61,779<br>3. Prosiectau Eraill = £50,544 | £150,000 |
| Cynllun Sefydlogrwydd Cynnar Cymru | £24,204 |
| Gwasanaeth Mynediad at Gofnodion Cymru – cwmpasu a sefydlu<br>1. AUK = £18,250<br>2. Dewi Sant = £18,250 | £36,500 |
| AFKA - modiwl hyfforddi Gweithlu sy'n Ymwybodol o Fabwysiadu | £7,000 |
| | **£638,639** |

| **COFRESTR FABWYSIADU CYMRU, £219,000 (ar ran Llywodraeth Cymru)** | **2023/24** |
|---|---|
| Costau darparu gwasanaethau (cyflogau, dod o hyd i deuluoedd a chostau eraill) | £95,550 |
| Tâl Rheoli | £28,000 |
| Trwydded Link Maker | £96,450 |
| | **£219,000** |

## Byrddau Rheoli Rhanbarthol

Mae'r pum Bwrdd Rheoli Rhanbarthol (BRhRh) ledled Cymru yn cyfarfod bob chwarter. Mae gan bob BRhRh oruchwyliaeth o'r trefniadau perfformiad, cyllid a llywodraethu ym mhob rhanbarth.

Roedd meysydd trafod penodol yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn hon yn ymwneud â:

| RHANBARTH | PYNCIAU |
|---|---|
| **Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru** | ▪ Apwyntiadau Meddygol Mabwysiadu<br>▪ Y gostyngiad yn nifer y mabwysiadwyr sy'n aros a chynnydd mewn plant â gorchmynion lleoli yn y rhanbarth<br>▪ Cymhlethdod achosion cymorth mabwysiadu ac angen heb ei ddiwallu<br>▪ Recriwtio mabwysiadwyr SCC |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (GMGC)** | ▪ Pontio a Chymorth Cynnar a datblygu rhaglen hyfforddi 'Wrth Eich Ochr'<br>▪ Rhestrau aros ar gyfer gwaith Taith Bywyd Therapiwtig<br>▪ Rhestrau aros ar gyfer Asesiad o Anghenion Cymorth Mabwysiadu<br>▪ Cynllunio i wella |
| **Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (GMDDdC)** | ▪ Apwyntiadau Meddygol Mabwysiadwyr<br>▪ Asesiadau Cyswllt<br>▪ Newid enwau Plant Mabwysiedig<br>▪ Sefydlogrwydd Cynnar Cymru |
| **Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (FCCh)** | ▪ Archwilio trefniadau llywodraethu a Chytundeb Cydweithredol diwygiedig<br>▪ Cysylltiadau â'r trydydd sector<br>▪ System rhybudd cynnar gyda Dewi Sant a Barnardo's.<br>▪ 'Adroddiad Cartref i Mi' |
| **Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin (GMBG)** | ▪ Tueddiadau mewn perthynas â mabwysiadwyr sy'n aros<br>▪ Adroddiad Baromedr Mabwysiadu AUK<br>▪ Archwilio Cyswllt<br>▪ Cynllun Gweithredu Diogelu |

## *Cysylltiadau â Llywodraeth Cymru*

Mae GMC yn gweithio'n agos gyda Gweinidogion a Swyddogion Llywodraeth Cymru ar nifer o bynciau a phrosiectau sy'n canolbwyntio ar fabwysiadu. Hyd yma eleni, mae'r rhain wedi cynnwys y canlynol:

- Cyfarfu'r Cyfarwyddwr a'r Cyd-gadeiryddion â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mai. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol gyda'r Dirprwy Weinidog yn mynegi ei diolchgarwch am y gwaith da sy'n cael ei wneud gan yr holl wasanaethau mabwysiadu sy'n ffurfio GMC. Roedd yr agenda yn cynnwys trafodaeth ar Adroddiad Canol Blwyddyn GMC 2022/23, perfformiad gwasanaeth, buddsoddiad newydd, a pheilot arfaethedig gwasanaeth i ddiwallu'r anghenion y mae arferion mabwysiadu hanesyddol yn effeithio arnynt.
- Cyfarfu'r Cyfarwyddwr ac Ann Bell o Adoption UK â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod, a rhoi cyngor, ar gyfer cyfarfod gyda phobl fabwysiedig a gododd o ymddiheuriad Llywodraeth Cymru am arferion mabwysiadu hanesyddol.
- IASA – Gwella Gwasanaethau Mabwysiadu i Oedolion - a ariennir gan yr Adran Addysg i wella gwasanaethau mabwysiadu i oedolion yn Lloegr gan ganolbwyntio i ddechrau ar bolisïau a phrosesau. Mae GMC yn cysylltu â'r prosiect hwn i lywio polisïau a phrosesau Cymru.
- Newidiadau i'r Rheoliadau Cymorth Mabwysiadu – Mae'r Pennaeth Polisi, Ymarfer a Chyfathrebu ynghyd â Sarah Coldrick, Cynghorydd Cyfreithiol o AFKA Cymru yn parhau i weithio gyda swyddogion i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau therapiwtig ar gyfer pobl mabwysiedig yn ogystal â chefnogi'n gyffredinol

- Ystyried Adroddiad Effaith Sonnet – Cartref i Mi – a'r hyn sydd angen ei gyflawni o ganlyniad i rai o'r argymhellion
- Mae'r Cyfarwyddwr wedi bod yn rhan o nifer o gyfarfodydd gydag Ymgynghorydd Llywodraeth Cymru, Anthony Douglas, sy'n gweithio ar Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol i Gymru.
- Niferoedd y GIG ar gyfer plant mabwysiedig - mae'r mater o rai rhifau newydd yn troi'n ddiofyn i niferoedd gwreiddiol y cofnodion geni ar gyfer achosion yng Nghymru yn cael sylw. Mae proses newydd fydd yn golygu goruchwylio gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn cael ei datblygu.

## *Crynodeb a'r Camau Nesaf*

Yn ail hanner 2023/24, bydd GMC yn parhau i fwrw ymlaen â'i flaenoriaethau strategol ac yn canolbwyntio ar foderneiddio wrth fabwysiadu ac ymateb i oblygiadau gydol oes mabwysiadu. Bydd meysydd ffocws penodol yn cynnwys:

- Cwmpasu dulliau gwahanol o gysylltu
- Hyfforddiant a datblygiad i weithwyr proffesiynol ledled Cymru
- Datblygu gwasanaethau ymhellach i gefnogi mynediad at gofnodion a'r gwasanaeth peilot i bobl y mae arferion mabwysiadu hanesyddol cyn 1976 yn effeithio arnynt
- Datblygu / diweddaru adnoddau, canllawiau a fframweithiau presennol i gefnogi gweithwyr proffesiynol
- Datblygu Gwefan GMC newydd
- Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu a Chynhadledd Flynyddol GMC
- Gwneud y gorau o'n cyllid a mynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â phwysau cyllid cyhoeddus i leihau'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar wasanaethau

Bydd ein Hadroddiad Blynyddol diwedd blwyddyn ar gyfer 2023/24 ar gael yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
d/o Cyngor Caerdydd,
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd, CF10 4UW
Ff: 029 2087 3927
E: contact@adoptcymru.com
https://www.adoptcymru.com/home.php?page_id=1&setLanguage=2